# Cenn@d

AWST 13 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 233

## Tystiolaeth Gristnogol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam

Yn ystod yr wythnos 2–9 Awst, cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus a byrlymus ar gyrion dinas Wrecsam, gyda maes croesawgar â digonedd o le, a thywydd bendigedig yn goron ar y cyfan. Cafwyd teilyngdod yn y prif gystadlaethau, a llongyfarchwn bawb yn gynnes iawn. Heb os, bydd y profiad teimladwy o weld Tudur Hallam yn ennill y gadair ac ymateb arbennig yr Archdderwydd Mererid Hopwood yn aros yn y cof am amser maith.

Bu gwaith yr eglwysi hefyd yn rhan o'r arlwy, gyda gwasanaeth arbennig yn y pafiliwn ar y bore Sul ar thema'r Ffin, wedi ei baratoi gan Jen Eynon, a Chymanfa Ganu afieithus gyda'r nos. Yn ystod yr wythnos cafwyd gwasanaeth cymun Cymraeg yn Eglwys San Silyn dan arweiniad James Tout ac offeren Gymraeg dan ofal yr Esgob Edwin Regan yn Eglwys Gadeiriol y Santes Fair.

Yn yr un modd daeth miloedd i mewn i babell Cytûn i fwynhau paned a sgwrs, a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau a lansiadau yno yn ystod yr wythnos. Braf oedd cael cwmni Cymorth Cristnogol, Cymdeithas y Beibl, y Cyngor Ysgolion Sul a nifer o fudiadau eraill o fewn y stondin. Cynhaliwyd oedfa bob dydd am 11 o'r gloch dan ofal yr eglwysi lleol, a chafwyd dau gyfarfod arbennig i ddangos cefnogaeth i drigolion Gaza drwy sefyll mewn undod ag ymgyrch y llinell goch. Daeth nifer ynghyd i lansiadau chwech o lyfrau newydd, gan gynnwys cyfrol olaf Huw John Hughes, pryd y cafwyd cyfle i dalu teyrngedau iddo.

Isod ceir detholiad o luniau yn darlunio rhai o'r pigion.



Cynan Llwyd yn rhannu gair ynghanol bwrlwm y babell



Cyfarfod y golygyddion: Alun Tudur o bapur *Y Tyst*, gyda Marian, Aled a Huw o *Cenn@d*



Bob dydd roedd gennym griw o wirfoddolwyr o'r eglwysi lleol yn gweini te a choffi. Diolch i bob un cylch a wasanaethodd yn y babell – dros 150 ohonynt i gyd.



Offeren Gatholig yng ngofal yr Esgob Regan



Lansio cyfrol newydd Aled Edwards, *Cyrraedd Bannau*, yng nghwmni'r awdur, ynghyd â Sian Wyn Rees a fu'n ei holi, ac Aled Davies o'r wasg



Lansio cyfrol newydd Aled Jones Williams, *Reit Rownd*, yng nghwmni'r awdur, ynghyd â Rhys Llwyd a fu'n ei holi, ac Aled Davies a Mair Jones Parry o'r wasg



Lansio cyfrol newydd Huw John Hughes, *Dyrys Daith*, pryd y cafwyd cyfle i gyflwyno copi i Huw a Gwenda Jones, y ddau y cyflwynodd Huw John y gyfrol iddynt yn ei ragair



Aled Lewis Evans ar lwyfan y brifwyl



Côr Morgan Llwyd yn oedfa'r bore yn y pafiliwn




Sefyll yn gadarn dros Gaza



Lansio cyfrol newydd Owain Llŷr Evans, *Yng Ngolwg Ffydd*, yng nghwmni rhai o gyfeillion Eglwys Minny Street, Caerdydd, ac Aled Davies o'r wasg

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Tystiolaeth Gristnogol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam*
*(parhad o dudalen 1)*



Y prif weinidog Eluned Morgan yn galw i mewn i gyfarch y gwirfoddolwyr



Margaret a Marc Morgan yn arwain un o'r oedfaon



Lansio cyfrol newydd *Llwybr Cadfan* gydag Aled Davies, Nia Elain Roberts ac Elin Owen

## Y Parchedig Marcus Wyn Robinson

Wedi cyfnod yn yr ysbyty, trist yw cyhoeddi y bu farw'r Parch. Marcus Wyn Robinson ar 31 Gorffennaf. O Gaernarfon yn wreiddiol, dechreuodd Marcus ei weinidogaeth yn ardal Llanberis yn 1978 cyn gwasanaethu fel caplan yn y Llynges Brydeinig am 20 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw fe ddaeth yn brif ysgrifennydd y gaplaniaeth ac yn uchel iawn ei barch gan bawb. Dychwelodd a'i draed ar dir sych yn nechrau'r ganrif wrth iddo ymgymryd â chynllun caplaniaeth ddiwydiannol y Gogledd-ddwyrain, gyda gofal dros weithwyr yn ffatrïoedd Airbus a Kellogg's yn bennaf, ond hefyd ar eglwys Bresbyteraidd y Tabernacl, Rhostyllen.

Cafodd ddychwelyd i'w ardal enedigol yn 2007 gan gymryd gofal bugeiliol ar gapeli Presbyteraidd yng Nghaeathro, Bethel, Llanrug a Brynrefail. Bu'n ysgrifennydd ac yn llywydd Sasiwn y Gogledd, yn swyddog ecwmenaidd i EBC, ac yn llywydd ar Gymanfa Gyffredinol ei enwad am ddwy flynedd yn ystod cyfnod y pandemig, cyn ymddeol yn 2023.

Bu llawer o deyrngedau iddo yn y newyddion ac ar y cyfryngau cymdeithasol yn arwydd o'i boblogrwydd hynod. Rydym yn cydymdeimlo'n fawr â'r teulu, a fu'n fawr eu gofal ohono yn ystod ei waeledd.

Dyfynnwyd o emyn Pedr Fardd wrth gofio amdano ar y cyfryngau cymdeithasol:

Ar fôr tymhestlog teithio 'rwyf
i fyd sydd well i fyw,
gan wenu ar ei stormydd oll:
fy Nhad sydd wrth y llyw.

Diolchwn i Siôn Aled Owen am yr englyn hwn sy'n crynhoi llawer o'r hyn rydym eisoes wedi teimlo'i golli o'i farw:

Ei straeon stôr drysoraf – ond ei waith
oedd ei daith bwysicaf;
bu'i ru o chwerthiniad braf,
bu'r hwyl. Bu'r harbwr olaf.

## Y Parchedig Elwyn Pryse

Ar 2 Awst, sef diwrnod cyntaf Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, tristwch oedd derbyn y newyddion am farw'r Parch. Elwyn Pryse, Bow Street. Ond roedd rywsut yn cyfannu cylch bywyd un a ddechreuodd ei weinidogaeth yn yr ardal honno ac a fu'n gefnogwr brwd o'r Brifwyl am flynyddoedd maith.

Ganed a maged Elwyn ym mryniau Ysbyty Ystwyth a Chwmystwyth yng nghefn gwlad Ceredigion, ac roedd yn werthfawrogol iawn o'r dylanwadau cynnar fu arno ar aelwyd Gristnogol mewn ardal ddiwylliedig. Mynychodd Ysgol Sir Tregaron cyn mynd i Goleg Trefeca i wneud Diploma mewn Diwinyddiaeth, ac yna ymlaen i'r Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth. Yn 1954, ac yntau'n ŵr ifanc 23 oed, cafodd ei ordeinio yn Sasiwn y De yng Nghaerfyrddin – un o'r rhai ieuengaf erioed i gael ei ordeinio.

Fel y crybwyllwyd, yn ardal Wrecsam yr oedd ei ofalaeth gyntaf, yn weinidog ar eglwysi yn Rhosllannerchrugog, Johnstown a Rhiwabon. Bryd hynny roedd 13 o weinidogion yn y Rhos, pump ohonynt yn weinidogion yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Ond roedd yna dynfa yn ôl i gefn gwlad, ac ar ôl pedair blynedd a hanner symudodd i Lanrhaeadr-ym-Mochnant, ac yna i Lanymddyfri, lle treuliodd ddeng mlynedd dedwydd iawn. Er hynny, dychwelyd i'w hoff Geredigion fu ei hanes, i ofalaeth y Borth i ddechrau, a chan weinidogaethu ar ofalaeth y Garn hefyd yn nes ymlaen, pan unwyd y ddwy ofalaeth. Ar gyngor meddygol, ymddeolodd yn gynnar, yn 62 oed, ond fe ddaliodd i bregethu hyd at 2020.

Roedd yn eisteddfodwr o fri, a byddai ef a'i ddiweddar briod, Tegwen, yn mwynhau wythnos o garafanio yn yr Eisteddfod gydol y blynyddoedd. Roedd yn genedlaetholwr brwd ac yn Gymro i'r carn.

Yn Sasiwn y De ar 1 Mai 2024, cafodd ei longyfarch ar ddathlu 70 mlynedd ers ei ordeinio'n weinidog. Diolchwn i Dduw am ei weinidogaeth faith a chyfoethog, ac estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Maldwyn ac Eleri, ei fab a'i ferch yng nghyfraith, ag Eilir (ŵyr) a Fflur, Meleri (wyres) ac Andrew, a'i orwyres, Erin Haf, a'r teulu estynedig.

# Credo Nicea – Sesiwn Dau: Ymgnawdoliad Iesu Grist (rhan 2)

**Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea-Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.**

Pan edrychwn ar sut y lluniwyd Credo Nicea, gwelwn fod gan y Cyngor wybodaeth o'r ysgrythurau a'r gallu i'w deall a'u dehongli. Yn Efengyl Ioan cawn y geiriau hyn: "Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair. Yr oedd ef yn y dechreuad gyda Duw" (Ioan 1:1-2). Yn ogystal, nid yw Ioan yn ymddiheuro am ddyrchafu ei ddatganiad drwy gyhoeddi'n ddigyfaddawd, "Daeth pob peth i fod trwyddo ef; hebddo ef ni ddaeth un dim sydd mewn bod" (Ioan 1:3).

Yna mae'r dirgelwch y mae pobl yn dal hyd yn oed heddiw i geisio'i ddeall, "A daeth y Gair yn gnawd a phreswylio yn ein plith …" (Ioan 1:14).

Awgrymir mai'r Gair wedi ei ymgnawdoli yw Iesu a'i fod yno ers y dechrau, ac iddo ddod yn gnawd. Felly, mae dirgelwch yr ymgnawdoliad yn ein cymell i beidio cyfyngu ar Dduw fel y byddai ein meddyliau'n ei wneud. Dylem ddysgu oddi wrth y nodweddion niferus sydd wedi eu datguddio ym mywyd Iesu, sy'n ein sianelu i weld gras, cariad a gwaredigaeth gyflawn yn Iesu.

Yn ymgnawdoliad Iesu, mae awduron yn portreadu delweddau gwahanol o Iesu:

- rhyddhawr y rhai oedd/sydd yn cael eu gorthrymu
- gwas a ddaeth i roi cysur i'r gwan a'r bregus
- iachäwr y rhai sy'n sâl ac yn marw.

Cawn ein harwain drwy'r rhain, a nifer o ddelweddau eraill, i weld Iesu fel yr unig un yn hanes y ddynolryw a gyflwynodd Dduw o'r newydd i'w bobl ei hun yn berffaith a di-fai. Defnyddiodd yr ailgyflwyno hwn ein gwendid a'n cyfyngiadau ni i ddatguddio grym Duw ac i ddangos Duw cariadus a grasol i ni.

Cawn ein herio gan ymgnawdoliad Duw yn Iesu i ochel agwedd fuddugoliaethus ac i gymryd arnom weithredoedd a meddwl gwas, yn unol â Philipiaid 2:5–11. Mae'n awgrymu fod angen i ni ein hunain gredu, a chyhoeddi i eraill, na all dim ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw (gw. Rhufeiniaid 8:31–9). Ein gwaith ni yw cydnabod presenoldeb Duw, hyd yn oed pan mae'n ymddangos nad yw Duw yno. Emaniwel yw Duw: gyda ni bob amser. Oherwydd pan ydym ni'n wan, down o hyd i'w nerth trwy rym yr Ysbryd Glân. Dod wyneb yn wyneb â'n Harglwydd fel hyn fydd yn ein galluogi i ymuno â datganiad y Cyngor: "Credwn yn un Arglwydd, Iesu Grist, unig Fab Duw, a genhedlwyd gan y Tad cyn yr holl oesoedd, Duw o Dduw, Llewyrch o Lewyrch, gwir Dduw o wir Dduw, wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur, yn un hanfod â'r Tad."

Dygir dau begwn marwoldeb a duwdod i undod yn yr ymgnawdoliad, lle mae duwdod yn ymyrryd yng nghyfyngiadau marwoldeb. Fel rhai marwol, felly, dylem ildio i rym dwyfol Duw. Oherwydd y mae'n ein galluogi i weld ac arddangos athrawiaeth yr ymgnawdoliad i'r byd.

**Cwestiynau i fyfyrio arnynt**

1. Sut mae ysbrydoli pobl o'r un ffydd â ni i newid, a byw bywyd fel rhodd gras Duw i bawb ohonom – gan gofio bob pawb yn golygu PAWB (gan gynnwys byd natur)?
2. Fedrwch chi feddwl am enghraifft o achlysur pan fuoch chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod yn cydsefyll â phobl oedd yn wan neu'n fregus?
3. Sut fedrwn ni fod yn falm a chysur i bobl sy'n sâl ac yn marw?
4. Meddyliwch am yr argyfwng hinsawdd: sut mae ymgnawdoliad Duw yn Iesu yn ein herio i weithredu?

**Gweddi**

Dad nefol, diolch i ti am ddanfon dy Fab Iesu i'r byd. Boed i ni gydnabod ein galwad i garu ac anrhydeddu dy holl gread. Agor ein calonnau i ddirnad a chofleidio presenoldeb cyson Iesu, dy Air a ddaeth yn gnawd, fel y gallwn dystio i'th gariad a'th ofal diderfyn dros bawb. Arglwydd, cryfha ein ffydd, nid yn unig yn y pethau gweledig, ond yn y pethau anweledig. Amen.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 17 Awst, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 17 Awst, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Ingrid Rose,
Ystrad Meurig




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Y Parchedig William Gareth Edwards

Er iddo ddechrau pregethu yn ifanc, nid oedd Gareth yn gwbl sicr o'i lwybr hyd nes iddo glywed y Parchg Eirian Davies, yr Wyddgrug, yn pregethu ar y testun: 'Gosodaf fy mwa yn y cwmwl a bydd yn arwydd cyfamod rhyngof a'r ddaear' (Genesis 9:13). Yn dilyn y bregeth honno, gwyddai i sicrwydd mai gweinidog yr oedd am fod.

Fe'i ganed ar 12 Tachwedd 1942, yr hynaf o dri mab George a Blodwen Edwards, fferm y Bwlch, ystad Bodnant, Dyffryn Conwy. Ergydiwyd y teulu yn fawr pan fu farw'r fam yn gwbl annisgwyl yn dilyn llawdriniaeth yn yr ysbyty, a Gareth yn ddim ond wyth oed. Gadawodd y golled ei hôl yn drwm arno am weddill ei oes.

Fe'i haddysgwyd yn ysgolion gramadeg Bae Colwyn a John Bright, Llandudno; yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor; Coleg y Presbyteriaid yn Aberystwyth; a'r Coleg Coffa, Abertawe, gan raddio yn y Celfyddydau ac mewn Diwinyddiaeth. Yn dilyn ei ordeinio yn Sasiwn Abergele ym mis Medi 1970, fe'i sefydlwyd yn weinidog eglwysi Soar, Pontardawe a Seilo, Gwauncaegurwen, gan ychwanegu Jerusalem, Ystalyfera, yn ddiweddarach. Cafodd groeso twymgalon gan ei bobl, a'r chwe blynedd a dreuliodd yn eu plith yn rhai arbennig o ddedwydd.

Ond roedd problem. Onid oedd chwaraewr rygbi enwog yn hanu o'r un ardal, a Gareth, weithiau, yn cael ei gamgymryd am y Gareth Edwards arall? Meddai Gareth y gweinidog am Gareth y mewnwr dawnus: 'The difference between him and me is that he converts tries and I try to convert'. Dyma enghraifft o'i hiwmor iach.

Dechrau 1977 dyma symud i ofalaeth y Tabernacl, Porthmadog, ac Ebeneser, Borth-y-Gest, lle y bu am y chwe blynedd nesaf. Yn fuan enillodd barch ei aelodau ar gyfrif ei bregethu effeithiol a'i fugeiliaeth gyson. Fe'i gwelid yn aml yn ymweld â'i bobl ar gefn ei feic, ond bod ei arfer o godi llaw ar rywun yr oedd yn ei adnabod, yn hytrach na chanolbwyntio ar y ffordd o'i flaen, wedi arwain at fwy nag un codwm.

Yn 1982 ymgymerodd â gofalaeth Bethesda, yr Wyddgrug, a Soar, Nercwys, yn olynydd i'r Parchedig Eirian Davies, sef traddodwr y bregeth a gafodd cymaint dylanwad ar y Gareth ifanc. Treuliodd yn agos at ddwy flynedd ar bymtheg yno, a thystiwyd i'w ymroddiad gan Aled Lloyd Davies (*Daily Post*, Ionawr 1999): 'Bu ei ofal dros y cleifion a'r trallodus yn arbennig iawn, ac nid ei aelodau yn unig a fedr dystio i hynny. Rhoes ei ddarllen eang a'i feddwl praff berthnasedd ac argyhoeddiad i'w bregethu. Meddai un rhinwedd pwysig arall wrth bregethu, sef y ddawn i gyflwyno pob neges yn fyr ac i bwrpas.'

Yna, yn 1999, apwyntiwyd ef yn Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Amheuai rhai ohonom ddoethineb y cam hwn oherwydd, er i Gareth ymroi'n ddyfal i gyflawni holl ofynion y swydd, nid gweinyddwr ydoedd yn y gwraidd ond gweinidog a dyn pobol. Felly, nid oedd yn syndod iddo, ymhen pedair blynedd, ddychwelyd i Borthmadog yn weinidog eglwys Capel y Porth.

Dyma Gareth yn cyrraedd ei chwe deg a saith oed, a pholisi ei enwad, erbyn hynny, yn ei orfodi, fwy neu lai, i roi'r gorau i'w waith. Symudodd i fyw i Ddeganwy, ac o fewn dim, dyma aelodau eglwys Capel Coffa, Cyffordd Llandudno, yn ei wahodd i ofalu amdanynt yn rhan-amser (term cwbl anaddas yn y cyswllt hwn). Felly, dyma Gareth y Presbyteriad – bu'n ysgrifennydd ac yn llywydd Sasiwn y Gogledd, ac yn llywydd y Gymanfa Gyffredinol yn ei dro – yn troi yn Annibynnwr.

Daliodd ati hyd at 2023; yn fuan ar ôl hynny torrodd ei iechyd, a hunodd yn dawel yn ei gartref ar 10 Gorffennaf. Cofiwn yn dyner amdano ar gyfrif ei bersonoliaeth annwyl a diymhongar; ei gariad at ei deulu oll – yn arbennig Margaret, ei briod, a'r plant, Alun a Gwenith; ei gyfraniad diffuant i waith yr Efengyl; a'i gyfeillgarwch agos a theyrngar.

Cyfeiriwyd ato ar y daflen goffa fel 'gweinidog ffyddlon, bugail gofalgar a ffrind i lawer', disgrifiad a gadarnhawyd gan y gynulleidfa luosog a ddaeth ynghyd i'r gwasanaeth o ddiolchgarwch am ei fywyd yng nghapel Seilo, Llandudno, ar ddiwrnod olaf mis Gorffennaf.

Bu Gareth a minnau yn ffrindiau da am drigain a phump o flynyddoedd, ac y mae'n chwith iawn gennyf ei golli.

*Desmond Davies*

O.N. Cynhwysir uchod rai o sylwadau Meurig Edwards (brawd Gareth) a'r Parchg Trefor Lewis yn eu teyrngedau hwythau yn y gwasanaeth coffa.


Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales

## Swydd ar gael: Swyddog Pwyllgorau

Mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn eich gwahodd i wneud cais am gyfle cyffrous ar gyfer Swyddog Pwyllgorau mewn cyfnod trawsnewidiol hollbwysig.

Yn y swyddogaeth hon, byddwch yn rhan annatod o dîm ymroddedig sy'n darparu cefnogaeth i waith yr Undeb ar draws Cymru. Prif bwrpas y swydd fydd gweinyddu pwyllgorau'r Undeb.

**Lleoliad**: Caerfyrddin ond gyda hyblygrwydd i weithio gartref. Disgwylir presenoldeb cyson mewn cyfarfodydd yng Nghaerfyrddin ac mewn lleoliadau eraill o bryd i'w gilydd.

Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn gwbl ymroddedig i genhadaeth Undeb Bedyddwyr Cymru. Mae'r gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg cywir yn hanfodol.

Ymunwch â ni yn ein hymrwymiad i wasanaethu cymunedau ar draws Cymru.

**Cyflog**: £29,681.57–£31,801.67 (pro rata)

**Oriau**: 21 awr yr wythnos (0.6)

Croesewir ceisiadau rhannu swydd

**Dyddiad Cau**: Dydd Llun, 8 Medi 2025

**Dyddiad Cyfweld**: Dydd Gwener, 19 Medi 2025

Am wybodaeth bellach cysyllter â'r Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parchg Judith Morris neu'r Cyfarwyddwr Cenhadaeth, y Parchg Simeon Baker:
0345 222 1514 neu judith@ubc.cymru neu simeon@ubc.cymru



Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru